| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet / Briff Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 6 Ionawr 2025 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Jason McLellan - Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd, Tony Ward - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Yr Economi a'r Amgylchedd |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr adroddiad** | Amy Selby – Rheolwr Ariannu Allanol, Gareth Roberts - Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd, Adfywio a Datblygu Economaidd |
| **Teitl** | Hen Ysbyty Gogledd Cymru - Cymeradwyaeth i Gyflwyno Cytundeb Trydydd Parti |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y broses gymeradwyo sydd ei hangen i roi Cyllid Trydydd Parti i NWH Ltd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Cam 1 o Brosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru fel rhan o Raglen Cronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gan fod Llywodraeth y DU wedi ffurfioli Dyfarniad Grant Cronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd yn ddiweddar, mae'r Cyngor bellach yn gallu rhoi'r arian cyfatebol a sicrhawyd o'r grant allanol hwn i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cam 1 prosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru

2.2. Ceisio'r gymeradwyaeth briodol gan y Cabinet i gyhoeddi'r cyllid yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun, a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Sicrwydd Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllid Ffyniant Bro.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn nodi sefyllfa dyfarniad cyllid Llywodraeth y DU ar gyfer y prosiect hwn.

3.2. Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r argymhelliad gan y Grŵp Craffu Cyfalaf i fwrw ymlaen â'r cyfraniad arian cyfatebol i gefnogi Cam 1 o brosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru, yn unol â gweithdrefnau ariannol y Cyngor ei hun a'r Achos Busnes Cyfalaf cysylltiedig. (Atodiad 2).

3.3. Bod y Cabinet yn awdurdodi'r broses o roi'r Grant i'r Partner Datblygu, gan gydnabod i) y gwiriadau sydd wedi'u cynnal fel rhan o'r broses Diwydrwydd Dyladwy sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DU a ii) deall bod hyn yn amodol ar asesiad rheoli cymhorthdal boddhaol, a chwblhau holl eitemau trosglwyddo tir ac A106 sy'n weddill.

3.4. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith Uchelgais Gogledd Cymru fel rhan o'i ystyriaethau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### Cefndir

4.1. Mae prosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru yn brosiect cymhleth ar safle mawr o arwyddocâd hanesyddol i Ogledd Cymru. Uchelgais y prosiect presennol yw cyflawni cynllun o welliannau adfywio materol i safle Hen Ysbyty Gogledd Cymru ac achub adeilad rhestredig Gradd 2* o bwysigrwydd sylweddol nad yw wedi'i feddiannu ers 1996. Mae'r cynnig yn cynrychioli cyfle datblygu economaidd enfawr i Ddinbych a Sir Ddinbych.

4.2. Mae hwn yn brosiect o arwyddocâd rhanbarthol. Er iddo gael ei gychwyn gan Gyngor Sir Ddinbych fwy na 15 mlynedd yn ôl, mae bellach yn cael ei arwain gan Uchelgais Gogledd Cymru ac mae'n rhan o Raglen Tir ac Eiddo ar gyfer Twf Gogledd Cymru. Mae hanes llawn y safle a'i ddatblygiad i'w weld yn Atodiad 1.

4.3. Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynnal proses achos busnes 5 cam cadarn ar gyfer y prosiect hwn, a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Bartneriaeth Ranbarthol yn gynharach eleni. Cyfanswm cost datblygu'r prosiect yw £107 miliwn.

4.4. Disgwylir i’r Prosiect yn ei gyfanrwydd gael ei gyflawni dros gyfnod o 12 mlynedd mewn 3 cham. Cam 1 y cynllun fydd y gwaith dymchwel ac adfer y safle, gan gynnwys y prif safle, gwella cyfleustodau, sefydlu isadeiledd bio gynefin a chanolfan sgiliau adeiladu.

4.5. Costau Cam 1 yw £13 miliwn, ac mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi sicrhau £7 miliwn ohono gan gyllid Bargen Dwf Llywodraeth y DU. Daw £3 miliwn o fuddsoddiad preifat.

4.6. Penderfynodd Cabinet Cyngor Sir Ddinbych ym mis Rhagfyr 2021 i gynnwys Cam 1 y prosiect hwn yn ei gais am Gyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Yn dilyn proses arfarnu grantiau gynhwysfawr, mae'r Cyngor bellach wedi derbyn hysbysiad ffurfiol bod y cyllid hwn wedi'i ddyfarnu, gyda £3 miliwn wedi'i ddyrannu i'r prosiect hwn.

4.7. Mae bellach yn ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Cyllid Llywodraeth y DU a'i Reoliadau Ariannol ei hun.

4.8. **Cam 1 – Cynnal asesiad diwydrwydd dyladwy o’r partner datblygu fel yr un sy’n derbyn y grant:** Mae asesiad trylwyr wedi'i gynnal yn unol ag argymhellion Llywodraeth y DU ac wedi'i oruchwylio a'i gymeradwyo gan y Prif Swyddog Archwilio, y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro. Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o wybodaeth yn ymwneud â sefyllfa ariannol, strwythur, profiad a gwaith llywodraethu'r Partner Datblygu. At ddiben y prosiect hwn, bydd y Cyngor yn ymrwymo i Gytundeb gyda Jones Bros drwy ei is-gwmni NWH Ltd. Mae gwerthusiadau diwydrwydd dyladwy wedi'u cynnal ar y ddau ac nid oes unrhyw faterion arwyddocaol wedi'u nodi gyda'r argymhelliad i fwrw ymlaen â’r Grant.

4.9. Nodwyd hefyd fel rhan o'r arfarniad Diwydrwydd Dyladwy y bydd trefniadau llywodraethu prosiect a rheoli contractau cadarn ar waith, a fydd yn caniatáu monitro'r prosiect a'r broses hawliadau yn agos er mwyn rheoli’r risgiau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r grant. Bydd hawliadau’n cael eu talu mewn ôl-daliadau a dim ond ar ôl cael eu cymeradwyo gan Syrfëwr Meintiau’r Cyngor gan y Gwasanaeth Dylunio ac Adeiladu.

**Cam 2 - Cymeradwyo’r Achos Busnes Cyfalaf**

4.10. Cafodd yr Achos Busnes Cyfalaf ei adolygu a’i gymeradwyo gan y Grŵp Craffu Cyfalaf yn gynharach eleni, yn unol â gweithdrefnau ariannol arferol y Cyngor.

Oherwydd gwerth y grant sydd i’w ddyfarnu, mae’n ofynnol i’r Cabinet gymeradwyo’r Achos Busnes Cyfalaf yn unol â Rheoliadau Contract Caffael y Cyngor. Mae’r Achos Busnes wedi’i gynnwys yn Atodiad 2.

4.11. Ar yr amod bod y Cabinet yn fodlon â’r uchod, bydd tîm cyfreithiol y Cyngor wedyn yn cyhoeddi cytundeb Ariannu Trydydd Parti, a fydd yn nodi Telerau ac Amodau’r grant yn unol â gofynion y cyllidwr a’r Cyngor.

4.12. Dylid nodi hefyd y bydd y Cytundeb Trydydd Parti ac unrhyw arian grant hefyd yn dibynnu ar gwblhau asesiad rheoli cymhorthdal ar y cyfraniad i'r prosiect hwn yn foddhaol, a chwblhau'r holl ofynion cynllunio sy'n weddill.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae’r prosiect yn ceisio cael effaith weledol mewn ardaloedd lleol, yn arbennig yr ardaloedd sydd â’r lefel uchaf o angen. Fel amod o’r caniatâd cynllunio mae buddsoddiad sylweddol i warchod bioamrywiaeth y safle. Mae’r cais felly’n cyfrannu at themâu’r Cynllun Corfforaethol sy’n ymwneud â Sir Ddinbych Ffyniannus a Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd. Mae’r gwaith yn cyfrannu at ddatblygu strategaeth economaidd a fydd yn adfywio tirnod hanesyddol amlwg yn Sir Ddinbych, canol y dref gyfagos ac yn cefnogi twf yr economi leol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cyfanswm cost y prosiect ar gyfer Cam 1 o Brosiect Hen Ysbyty Gogledd Cymru yw £13 miliwn, ac mae £3 miliwn ohono wedi’i gymeradwyo gan Lywodraeth y DU o Raglen Cronfa Ffyniant Bro Dyffryn Clwyd. Yn ogystal, Bargen Dwf o £7 miliwn drwy Uchelgais Gogledd Cymru a £3 miliwn o arian cyfatebol gan y Sector Preifat. Nid oes unrhyw gost ychwanegol i’r Cyngor.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r gweithgareddau Achos Busnes ac Asesiad o Effaith wedi'u cynnal gan Uchelgais Gogledd Cymru gan fod y prosiectau yn rhan o'r Rhaglen Tir ac Eiddo ar gyfer y rhanbarth. Yr Asesiad o Effaith Integredig wedi'i gwblhau (Atodiad 3) a'r Gofrestr Budd-daliadau (Atodiad 4).

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r prosiect hwn wedi bod yn cael ei ddatblygu ers dros 10 mlynedd ac mae wedi cael ei adolygu gan ystod eang o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y Cyngor, aelodau etholedig, aseswyr Porth LlC, Uchelgais Gogledd Cymru a phartneriaid rhanbarthol. Dewiswyd y prosiect i'w gynnwys ar gyfer cyllid Cronfa Ffyniant Bro a'i gefnogi gan y Grŵp Ardal Aelodau, y Cabinet a'r AS. Bydd gofyn i'r prosiect barhau i ymgysylltu â'r Grŵp Ardal Aelodau yn barhaus.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae Cyllid Ffyniant Bro yn ffynhonnell bwysig o arian cyfalaf i adfywio ein cymunedau. O ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor ar hyn o bryd, bydd yn rhaid rhoi mwy o ddibyniaeth ar gyllid allanol i ariannu ein cynllun cyfalaf i'r dyfodol. Mae'r cyllid hwn hefyd yn denu £10 miliwn ychwanegol i'r Sir drwy arian cyfatebol cyhoeddus a phreifat arall, yn ogystal â'r potensial tymor hwy o £97 miliwn pellach o fewnfuddsoddiad i'r Sir.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Oherwydd amserlenni heriol, gall oedi wrth gymeradwyo'r grant roi'r prosiect ac arian cyfatebol mewn perygl.

10.2. Pe bai oedi yn digwydd yn y broses gymeradwyo, bydd y ffenestr i weithredu ar y mesurau bioamrywiaeth ac ecoleg ar y safle i sicrhau y gellir cwblhau Cam 1 erbyn mis Mawrth 2026 yn cael ei methu, gan ohirio'r prosiect am 6 mis arall.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol dan a.24 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021